# EVANS, THOMAS (1625 - 1688), gweinidog gyda'r Bedyddwyr

**Enw:** Thomas Evans
**Dyddiad geni:** 1625
**Dyddiad marw:** 1688
**Plentyn:** Thomas Evans
**Plentyn:** Caleb Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** William Joseph Rhys

Ganwyd yn y Pentre, Llanafanfawr, sir Frycheiniog. Cafodd addysg dda. Rhoes y dirprwywyr dystysgrif pregethwr iddo 16 Mai 1653. Gofalodd am eglwys blwyf Maesymynys hyd 1662. Bedyddiwr rhydd-gymunol ydoedd - dyna pam yr ymunodd ei ferch â Broadmead ac nid â'r Bedyddwyr Cyffredinol ym Mryste. Nid ef, fel y tybia 'Spinther,' eithr Thomas Evans, Dyffryn-ffrwd, aelod yn Llantrisant, oedd yng nghymanfa Aberafan (1654). Er ei garcharu yn Aberhonddu o dan Siarl II, a'i flino'n enbyd, aeth dau o'i fechgyn a llu o'i ddisgynyddion i'r weinidogaeth - y prifathrawon Hugh a Caleb Evans, Bryste, Dr. John Evans, Islington, etc. (gweler dan eu henwau). Bugeiliai ei breiddiau yn y Pentre a'r cylchoedd hyd ei farwolaeth yn 1688.

## Awdur

**Y Parchedig William Joseph Rhys**, (1880 - 1967)

## Ffynonellau


J. Spinther James, *Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru*, ii, 431

T. Richards, *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*

W. J. Rhys, *Penodau yn Hanes y Bedyddwyr Cymreig* (1949), tt. 56-57

T. Richards, *Religious Developments in Wales, 1654–1662* (1923)

T. Richards, *Wales under the Indulgence*


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734447


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu